Taflen Wybodaeth i Gyfranogwyr – Participant Information Sheet [English version on pp. 4-6]

Teitl yr astudiaeth: *Newidiadau, heriau a chyfleoedd sydd wedi digwydd o ganlyniad uniongyrchol ac anuniongyrchol i bandemig Covid-19 yn y sector twristiaeth a lletygarwch ar Benrhyn Iveragh a Llŷn.*

Cyflawnir yr astudiaeth hon fel rhan o brosiect **LIVE** (Ecoamgueddfeydd Llŷn IVeragh) sy'n gydweithrediad rhwng mudiadau cymunedol yng Nghymru ac Iwerddon, adrannau academaidd a llywodraethau lleol. Nod LIVE yw galluogi cymunedau arfordirol i hyrwyddo eu hasedau naturiol a diwylliannol a chreu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy, yn enwedig y tu allan i'r tymor twristiaeth traddodiadol. O'r herwydd, hoffem ymchwilio i rwystrau yn ogystal â dulliau i ymestyn y tymhorau prysuraf i fusnesau fel eich un *chi* (*wedi'i bersonoli*), a hoffem eich gwahodd i gymryd rhan mewn arolwg byr, 10 munud. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr holl wybodaeth am yr astudiaeth. Fodd bynnag, os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu sylwadau eraill, mae croeso i chi gysylltu â ni. Mae'r manylion cyswllt ar waelod y ddogfen.

Gwahoddiad a chrynodeb byr o'r prosiect

Diolch i chi am ystyried cymryd rhan yn yr astudiaeth hon. Pwrpas y ddogfen hon yw esbonio pwrpas y gwaith a beth fyddai eich cyfranogiad yn ei olygu, er mwyn i chi allu gwneud dewis gwybodus os hoffech chi gymryd rhan.

Pwrpas yr astudiaeth yw cofnodi'r *newidiadau, yr heriau a'r cyfleoedd sydd wedi digwydd o ganlyniad uniongyrchol ac anuniongyrchol i bandemig Covid-19 yn y sector twristiaeth a lletygarwch yn 2020 a 2021.* Rydyn ni'n gwahodd busnesau twristiaeth a lletygarwch ar *Benrhyn Llŷn/Iveragh* (*dileer fel sy'n briodol*) i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon, gan gynnwys darparwyr gweithgareddau twristiaeth, tywyswyr teithiau, gweithredwyr ac asiantaethau, atyniadau i ymwelwyr, gweithredwyr trafnidiaeth, gwestai, tafarndai, llety gwely a brecwast, darparwyr llety hunanarlwyo, meysydd carafanau a meysydd gwersylla, bwytai a chaffis.

Beth fyddai cymryd rhan yn ei olygu?

Os byddwch chi'n dewis cymryd rhan, gofynnir i chi lenwi holiadur a fydd yn cymryd **tua 10 munud i'w lenwi** a bydd yn cynnwys cwestiynau am y **newidiadau yn eich oriau agor a'ch refeniw, a'r heriau a'r cyfleoedd i'ch busnes.**

Mae cymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn gwbl wirfoddol, wrth gwrs. Does dim rheidrwydd arnoch i gymryd rhan, a gallwch hefyd wrthod ateb cwestiynau penodol a hepgor adrannau cyfan. Bydd yr holl wybodaeth a roddwch wrth gyflwyno eich ymatebion yn **gyfrinachol** a bydd **eich anhysbysrwydd yn cael ei ddiogelu drwy gydol yr astudiaeth.** Ni fydd cyfeiriadau IP yn cael eu casglu unrhyw adeg, sy'n golygu na ellir olrhain y data y byddwch yn ei ddarparu yn ôl i chi nac i'ch busnes.
Does dim rhaid dweud eich bod yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl o'r astudiaeth unrhyw adeg hyd at y pwynt cyflwyno data (clicio'r botwm '***cyflwyno***'). Ar y pwynt hwn, bydd rhif cyfranogwr yn cael ei neilltuo i'ch data a bydd yn cael ei goladu gyda data'r

cyfranogwyr eraill ac ni fydd modd ei dynnu'n ôl mwyach. Os byddwch yn penderfynu peidio â chlicio'r botwm cyflwyno ar ddiwedd yr arolwg, **ni fydd** dim o'r wybodaeth a roesoch yn cael ei storio. Os byddwch chi'n cyflwyno eich ymatebion, bydd y data **dienw'n** cael ei storio am o leiaf ddeng mlynedd ar lwyfan storio cwmwl sy'n cael ei gynnal gan Goleg Prifysgol Corc sy'n cael ei warchod gan gyfrinair (**Microsoft Teams**). Mae'r bartneriaeth LIVE yn cael ei harwain gan staff yn Ysgol Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a'r Ddaear, Coleg Prifysgol Corc, Iwerddon, a fydd yn gyfrifol am gasglu a storio data. I gael rhagor o wybodaeth am sut bydd eich data personol yn cael ei storio a'i brosesu, edrychwch ar y polisi preifatrwydd sydd wedi'i atodi, neu ar-lein yn: **Hysbysiad Diogelu Data LIVE**.

Ble fydd y canlyniadau'n cael eu rhannu?

Bydd y data'n cael ei storio mewn ffolder Microsoft Teams sydd wedi'i diogelu â chyfrinair. Mae eich ymatebion yn gwbl ddienw, sy'n golygu y bydd unrhyw fath o wybodaeth a allai ddatgelu pwy yw eich busnes yn cael ei dileu. Cofiwch y bydd yr ymchwilydd yn storio ac yn rhannu'r ymchwil hwn, gan gynnwys eich ymatebion cwbl ddienw, ar lwyfan Ffynhonnell Agored ddiogel o'r enw Zenodo, lle bydd yr ymchwil yn cael ei storio'n ddiogel er mwyn bod yn hawdd dod o hyd iddo, yn hygyrch, yn rhyngweithredol ac yn gallu cael ei ailddefnyddio.

Bydd y canlyniadau hefyd yn cael eu rhannu mewn digwyddiadau cymunedol a gweminarau. Fel un sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth hon, byddwch yn cael gwahoddiad personol i ddod i'r digwyddiadau. Gall yr wybodaeth a roddwch hefyd gyfrannu at gyhoeddiadau ymchwil a chyflwyniadau cynadleddau. Ni fydd yn bosibl i chi na'ch busnes gael eich adnabod wrth adrodd ar y data.

Beth yw buddion ac anfanteision posibl cymryd rhan?

Mae'r astudiaeth hon wedi cael cymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Gymdeithasol Coleg Prifysgol Corc. Gwerthfawrogir eich cyfraniad yn fawr. Byddwch yn cyfrannu at astudiaeth ymchwil sy'n rhoi gwybod am faterion posibl yn y sector twristiaeth a lletygarwch y dylid rhoi sylw iddynt yn y blynyddoedd i ddod. Ar ddiwedd yr holiadur, gallwch gyflwyno eich cyfeiriad e-bost i gael crynodeb ysgrifenedig o ganlyniadau'r arolwg. Os byddwch chi'n penderfynu gwneud hynny, **ni fydd** eich cyfeiriad e-bost personol yn cael ei storio gyda'ch ymatebion er mwyn cadw eich data'n gwbl ddienw. Fel arall, gallwch anfon e-bost atom unrhyw bryd i roi gwybod i ni eich bod am dderbyn yr adroddiad cryno.

Dydyn ni **ddim** yn rhagweld unrhyw ganlyniadau negyddol o gymryd rhan yn yr astudiaeth hon ac ni fyddwch yn wynebu unrhyw anfanteision drwy gymryd rhan yn yr arolwg hwn.

Gyda phwy allwch chi gysylltu?

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr astudiaeth hon, mae croeso i chi gysylltu â mi, Leonie Schulz (yr ymchwilydd), drwy **lschulz@ucc.ie**, neu'r prosiect yn uniongyrchol drwy: **live@ucc.ie**.

Os ydych chi wedi darllen a deall y daflen wybodaeth hon, bod eich holl gwestiynau wedi cael eu hateb a'ch bod am gymryd rhan yn yr astudiaeth, llenwch y ffurflen ganiatâd dros y dudalen.

Ffurflen Ganiatâd Ymchwil

1) Esboniwyd pwrpas yr astudiaeth hon i mi ar bapur.
2) Rwy'n cadarnhau fy mod i dros 18 oed.
3) Rwy'n cymryd rhan yn wirfoddol.
4) Rwy'n deall y gallaf dynnu'n ôl o'r astudiaeth, heb sgil-effeithiau, ar unrhyw adeg cyn i fy arolwg gael ei gyflwyno'n derfynol.
5) Rwy'n deall y bydd yr arolwg (a fy nata) yn gwbl ddienw a chyfrinachol.
6) Rwy'n gwybod â phwy y gallaf gysylltu os oes gennyf unrhyw gwestiynau am yr astudiaeth neu fy nghyfranogiad.
7) Rwy'n deall y gellir dyfynnu dyfyniadau dienw o'm harolwg mewn cyhoeddiadau dilynol os rhoddaf ganiatâd isod.
8) Rwy'n deall y bydd fy nata'n cael ei storio ar lwyfan cyhoeddus mewnol (ffolder prosiect a ddiogelir gan gyfrinair) a llwyfan gyhoeddus allanol (Zenodo) am o leiaf 10 mlynedd ac y gellir ei ddefnyddio ar gyfer astudiaethau ymchwil dilynol.

Rwy'n cytuno â'r datganiad uchod ac yn cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth uchod. ☐

Llofnod: ……. Dyddiad: ……..

ENW MEWN LLYTHRENNAU BRAS …….

Participant Information Sheet - Taflen Wybodaeth i Gyfranogwyr

Study title: Changes, challenges and opportunities that have occurred as a direct and indirect result of the Covid-19 pandemic in the tourism and hospitality sector on the Iveragh and Llŷn Peninsulas.

This study is carried out as part of the LIVE (Llŷn IVeragh Eco-museums) project, which is a collaboration between Welsh and Irish community organisations, academic departments, and local governments. LIVE aims to enable coastal communities to promote their natural and cultural assets, creating opportunities for sustainable tourism, especially outside of the traditional peak tourist seasons. As such, we would like to investigate barriers and enablers to extending the peak seasons for businesses like *yours (personalised)* and would like to invite you to participate in a short, 10 minute survey. This document contains all the information about the study, however, should you have any other questions or comments, please do not hesitate to get in touch with us. You will find contact details at the bottom of the document.

Invitation and brief project summary

Thank you for considering participating in this research study. The purpose of this document is to explain to you what the work is about and what your participation would involve, to enable you to make an informed choice if you would like to participate.

The purpose of this study is to document the changes, challenges and opportunities that have occurred as a direct and indirect result of the Covid-19 pandemic in the tourism and hospitality sector in 2020 and 2021. We are inviting tourism and hospitality businesses on the *Iveragh/ Llŷn Peninsula (delete as appropriate)* to take part in this study, including tourism activity providers, tour guides, operators and agencies, visitor attractions, transport operators, hotels, inns, B&Bs, self-catering accommodation providers, caravan and campsites, restaurants, and cafés.

What would taking part involve?

Should you choose to participate, you will be asked to complete a questionnaire, which will take **about 10min to complete** and will include questions about the **changes in your opening hours and revenues, and the challenges and opportunities for your business**.

Participation in this study is completely voluntary, of course. There is no obligation to participate, and you can also refuse to answer specific questions and skip entire sections. All information you provide when submitting your responses will be **confidential** and **your anonymity will be protected throughout the study**. IP addresses will not be collected at any point, meaning the data you provide cannot be traced back to you or your business.
It goes without saying that you maintain the right to withdraw from the study at any stage up to the point of data submission (clicking the '***submit***' button). At this point, your data will be assigned a participant number and be collated with that of other

participants and can no longer be retracted. Should you decide not to click the submit button at the end of the survey, **none** of the information you entered will be stored. If you do submit your responses, the **anonymous** data will be stored for minimum of ten years on a password-protected University College Cork supported cloud storage platform (***Microsoft Teams***). The LIVE partnership is led by staff at the School of Biological, Earth and Environmental Sciences, University College Cork, Ireland, who will be responsible for data collection and storage. For more information on how your personal data will be stored and processed, please refer to the attached privacy policy, or, online at: **LIVE Data Protection Notice**.

Where will the results be shared?

The data will be stored on a password-protected Microsoft Teams folder. Your responses are completely anonymised, which means that any form of information that could reveal the identity of your business will be deleted. Please be aware that the researcher will store and share this research, including your fully anonymised responses, on a safe Open Source platform called Zenodo, where the research will be stored safely in order to be findable, accessible, interoperable, and reusable.

The results will also be shared at community events and webinars. As a participant in this study, you will receive a personal invitation to attend the events. The information you provide may also contribute to research publications and conference presentations. It will not be possible for you or your business to be identified in any reporting of the data.

What are the possible benefits and disadvantages of taking part?

This study has obtained ethical approval from the UCC Social Research Ethics Committee. Your participation will be highly appreciated. You will contribute to a research study that informs about possible issues in the tourism and hospitality sector that should be addressed in the upcoming years. At the end of the questionnaire, you can submit your email address to receive a written summary of the survey results. Should you decide to do so, your personal email address will **not** be stored with your responses in order to keep your data completely anonymous. Alternatively, you can send us an email at any point to let us know that you would like to receive the summary report.

We do **not** anticipate any negative outcomes from your participation in this study and you will not incur any disadvantages by taking part in this survey.

Who can you contact?

If you have any queries about this study, please feel free to contact me, Leonie Schulz (the researcher), at lschulz@ucc.ie, or the project directly at: live@ucc.ie.

If you have read and understood this information sheet, have had all of your questions answered and you would like to be a participant in the study, please complete the consent form overleaf.

Research Consent Form

1) The purpose of this study has been explained to me in writing.
2) I confirm that I am over 18 years of age.
3) I am participating voluntarily.
4) I understand that I can withdraw from the study, without repercussions, at any time before the final submission of my survey.
5) I understand that the survey (and my data) will be completely anonymous and confidential.
6) I know who I can contact if I have any questions about the study or my participation.
7) I understand that anonymous extracts from my survey may be quoted in subsequent publications if I give permission below.
8) I understand that my data will be stored on both an internal (password-protected project folder) and external, public platform (Zenodo) for a minimum of 10 years and may be used for subsequent research studies.

I agree to the statements above and wish to take part in the study. ☐

Signed: ……. Date: ……..

PRINT NAME: …….